# Dogfennau Ategol - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 1 Mehefin 2020

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

## - Atodiad 1

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

**5.1 WS-30C(5)160 - Rheoliadau Rheoliad (EC) rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

(Tudalennau 1 - 3)

**CLA(5)-16-20** - **Papur 20** - Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol - 29 Mai 2020

**CLA(5)-16-20 - Papur 21 -** Llythyr at y Cwnsler Cyffredinol - 1 Mai 2020

Dogfennau atodol:

CLA(5)-16-20 - Papur 20

CLA(5)-16-20 - Papur 21

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Jeremy Miles AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

29 Mai 2020

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 1 Mai ynghylch cydsyniad Llywodraeth Cymru i Reoliadau Rheoliad (EC) Rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

Cafodd yr offeryn statudol hwn ei osod yn Senedd y DU ar adeg arbennig o heriol wrth i'r argyfwng Covid-19 ddatblygu, pan oedd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i flaenoriaethu'r pandemig a pharatoi ar gyfer y cyfyngiadau. Rwy'n ddiolchgar iawn am y modd ystyriol yr ydych yn ymdrin â Llywodraeth Cymru mewn achosion o'r fath lle mae wedi bod yn anodd inni gyflawni ein rhwymedigaethau yn ddiweddar.

Hysbyswyd Senedd Cymru am yr offeryn statudol ar 12 Mai.

Effeithiodd y cyfyngiadau hefyd ar y broses o hysbysu am Reoliadau'r Amgylchedd (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2020, a ddigwyddodd ar 27 Mai.

Gallaf eich sicrhau bod y rheoliadau sy'n ymwneud â'r paratoadau ar gyfer ymadawiad y DU â'r UE yn bwysig iawn i Lywodraeth Cymru. Mae'r gweithdrefnau wedi'u hadolygu yn sgil y cyfyngiadau a byddwn yn parhau i wneud pob ymdrech i gyflawni rhwymedigaethau Llywodraeth Cymru i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 30C yn llawn.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit

1 Mai 2020

Annwyl Jeremy

**Cydsyniad Llywodraeth Cymru i Reoliadau Rheoliad (EC) Rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

Gobeithio eich bod yn cadw'n dda.

Mae wedi dod i sylw'r Pwyllgor bod Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i **Reoliadau Rheoliad (EC) Rhif 1370/2007 (Rhwymedigaethau Gwasanaeth Cyhoeddus mewn Trafnidiaeth) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020** gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU.

Gosodwyd y Rheoliadau hyn gerbron Senedd y DU ar 16 Mawrth 2020 ac fe'u gwneir o dan adran 8 o *Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.* Fel offeryn gweithdrefn negyddol arfaethedig, mae'r rheoliadau wedi bod yn destun proses sifftio yn y ddau Dŷ yn Senedd y DU. Deallaf fod y cyfnod sifftio wedi dod i ben ar 28 Ebrill 2020, pan gytunodd y Pwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd a'r Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth y dylai'r offeryn ddilyn y weithdrefn negyddol.

O ystyried yr amgylchiadau anodd ar hyn o bryd, rydym yn ymwybodol o'r pwysau ychwanegol sy'n cael eu rhoi ar lywodraethau. Fodd bynnag, mae rheoliadau sy'n paratoi ar gyfer ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd yn parhau i fod yn bwysig. Yn yr un modd, rhaid i Lywodraeth Cymru barhau i gyflawni ei rhwymedigaethau o dan y Rheolau Sefydlog i'r Cynulliad Cenedlaethol. O dan Reol Sefydlog 30C, dylai'r Cynulliad fod wedi cael gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i'r Rheoliadau hyn dros fis yn ôl.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymchwilio i'r mater hwn a sicrhau bod yr hysbysiad sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 30C yn cael ei roi gerbron y Cynulliad cyn gynted â phosibl. Gofynnwn hefyd i chi sicrhau, lle y mae Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i offerynnau statudol perthnasol eraill gael eu gwneud, ac os y gwnaed hynny, fel y'i diffinnir yn Rheol Sefydlog 30C, y caiff y datganiadau ysgrifenedig priodol eu gosod gerbron y Cynulliad yn unol â gofynion y rheol sefydlog honno.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDCC@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddLJC@assembly.wales
0300 200 6565

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**
Y Cadeirydd
Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English